
# Pennod 3: Defnyddio’r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd i wneud penderfyniadau

## Sgoriau hylendid bwyd derbyniol

### Ffigur 13. Parodrwydd i fwyta bwyd mewn bwyty neu o safle tecawê sydd â sgôr hylendid bwyd sy’n is na 5.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ? | Aros am arolygiad – Lloegr, Gogledd Iwerddon | Aros am sgôr – Cymru | 0 – angen gwella ar frys | 1 – angen gwella yn sylweddol |
|---|---|---|---|---|
| Dal i fwyta yn y bwyty/siop tecawê | 35 | 41 | 2 | 3 |
| Peidio â bwyta yn y bwyty/siop tecawê | 43 | 36 | 95 | 93 |
| Ddim yn gwybod | 21 | 23 | 4 | 4 |

Lawrlwytho’r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 6
Gofynnwyd i’r ymatebwyr ystyried a fydden nhw’n dal i fwyta neu archebu bwyd o fwyty neu siop tecawê pe baen nhw’n gweld sgôr is na’r sgôr uchaf o 5 (da iawn) ar sticer sgôr hylendid bwyd wrth gyrraedd safle’r busnes bwyd. Dywedodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr y bydden nhw’n dal i fwyta mewn bwyty neu o siop tecawê pe baen nhw’n gweld sticer â sgôr hylendid bwyd o 4 (da) (93%) neu 3 (boddhaol ar y cyfan) (59%). Serch hynny, dywedodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr na fydden nhw’n bwyta mewn bwyty nac o siop tecawê pe baen nhw’n gweld sticer â sgôr hylendid bwyd o 2 (angen gwella) (82%), 1 (angen gwella yn sylweddol) (93%) neu 0 (angen gwella ar frys) (95%) (Ffigur 13) (footnote 1).


Gofynnwyd i’r ymatebwyr pa sgôr y bydden nhw fel arfer yn ei hystyried fel y sgôr hylendid bwyd isaf a fyddai’n dderbyniol iddyn nhw pan fydden nhw’n ystyried prynu bwyd o rywle. Byddai 8% o’r ymatebwyr ond yn ystyried sgôr o 5 fel un dderbyniol, ond dywedodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr mai sgôr o 3 (39%) neu 4 (42%) oedd y sgôr isaf y byddent yn ei hystyried yn dderbyniol. Roedd lleiafrif o’r ymatebwyr yn ystyried sgôr o 0 (1%), 1 (1%) neu 2 (4%) yn dderbyniol (footnote 2).

## Sefyllfaoedd sy’n effeithio ar sgoriau hylendid bwyd derbyniol

## Ffigur 14. Parodrwydd i brynu bwyd gan fusnes sydd â sgôr hylendid bwyd sy’n is na’u sgôr dderbyniol isaf.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ?Colofn1 | 1 – angen gwella yn sylweddol | 2 – angen gwella | 3 – boddhaol ar y cyfan | 4 – da |
|---|---|---|---|---|
| Yn barod | 33 | 52 | 21 | 21 |
| Ddim yn barod | 67 | 44 | 69 | 68 |
| Ddim yn gwybod | 0 | 4 | 11 | 11 |

Lawrlwytho’r siart hon

Delwedd .csv


Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 6

Gofynnwyd i’r ymatebwyr a allen nhw feddwl am sefyllfa lle y bydden nhw o bosib yn penderfynu prynu bwyd o fusnes â sgôr is na’u sgôr dderbyniol isaf arferol. Ar draws pob sgôr, dywedodd tua dau draean o’r ymatebwyr (67%) na allen nhw feddwl am sefyllfa lle y bydden nhw o bosib yn penderfynu prynu bwyd o fusnes bwyd â sgôr is, tra oedd 23% yn gallu meddwl am sefyllfa o’r fath (Ffigur 14) (footnote 3).

## Ffigur 15. Sefyllfaoedd lle y byddai’r ymatebwyr o bosib yn prynu bwyd gan fusnes bwyd sydd â sgôr hylendid bwyd is na’u sgôr dderbyniol isaf arferol

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ?Sefyllfaoedd | Canran yr ymatebwyr (%) |
|---|---|
| Mynd â’r bwyd i ffwrdd yn lle bwyta ar y safle | 8 |
| Archebu math penodol o fwyd | 11 |
| Ystyried yn ddiogel os yw’n dal i fod ar agor | 12 |
| Roedd yn rhan o gadwyn gyfarwydd | 15 |
| Mewn lleoliad anghyfarwydd | 15 |
| Rhywun arall ddewisodd y busnes bwyd | 19 |
| Mwynhau blas y bwyd | 20 |
| Rhywun arall wedi argymell y busnes | 27 |
| Doedd gen i ddim llawer o arian / dewis rhad | 27 |
| Roedd hi’n hwyr yn y nos | 31 |
| Gwybod bod y bwyd o ansawdd uchel | 34 |
| Bu’n rhaid dewis rhywle yn gyflym | 37 |
| Doedd dim llawer o ddewis arall | 50 |
| Wedi bwyta yno o’r blaen | 50 |

Lawrlwytho’r siart hon

Delwedd .csv

Source: Food & You 2: Wave 6


O ran yr ymatebwyr hynny a oedd yn gallu meddwl am sefyllfa lle y bydden nhw o bosib yn prynu bwyd gan fusnes bwyd â sgôr is na’u sgôr dderbyniol arferol, gofynnwyd iddyn nhw egluro beth fyddai’r sefyllfa honno drwy ddewis o blith rhestr o opsiynau. Y sefyllfaoedd mwyaf cyffredin oedd:

pe baen nhw wedi bwyta bwyd yno o'r blaen (50%); pe na bai llawer o ddewis o leoedd i fynd (50%); pe bai angen iddyn nhw brynu rhywbeth ar fyrder (37%); neu pe baen nhw'n gwybod bod y bwyd o ansawdd uchel (34%) (Ffigur 15) (footnote 4).

# Ffigur 16. Parodrwydd i brynu bwyd gan fusnes sydd â sgôr hylendid bwyd sy'n uwch na'u sgôr dderbyniol isaf arferol.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ?Colofn1 | 0 – angen gwella ar frys | 1 – angen gwella yn sylweddol | 2 – angen gwella | 3 – boddhaol ar y cyfan |
|---|---|---|---|---|
| Yn barod | 32 | 56 | 44 | 65 |
| Ddim yn barod | 62 | 17 | 46 | 21 |
| Ddim yn gwybod | 7 | 27 | 9 | 14 |

Lawrlwytho'r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 6

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a allen nhw feddwl am sefyllfa lle y bydden nhw ond yn prynu bwyd gan fusnes sydd â sgôr uwch na'u sgôr dderbyniol isaf arferol.


Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (61%) yn gallu meddwl am sefyllfa lle y bydden nhw'n gwneud hyn, ac nid oedd 25% o'r ymatebwyr yn gallu. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn tybio bod sgôr o 2 (angen gwella) (66%), 3 (boddhaol ar y cyfan) (66%), neu 4 (da) (64%) yn gyffredinol dderbyniol yn gallu meddwl am sefyllfa lle y bydden nhw ond yn prynu bwyd

gan fusnes bwyd â sgôr uwch (Ffigur 16) (footnote 5).

# Ffigur 17. Achlysuron lle byddai'r ymatebwyr ond yn prynu bwyd gan fusnes sydd â sgôr hylendid bwyd sy'n uwch na'u sgôr dderbyniol arferol.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ?Achlysur | Canran yr ymatebwyr (%) |
|---|---|
| Arall | 6 |
| Pan fyddai'n rhan o gadwyn | 13 |
| Eisiau mynd i rywle drud | 19 |
| Gyda phlant ifanc | 38 |
| Gyda phobl h?n | 39 |
| Problemau iechyd arbennig | 40 |
| Mewn lleoliad anghyfarwydd | 41 |
| Gyda phobl benodol/aelodau o'r teulu | 45 |
| Achlysur arbennig | 53 |

Lawrlwytho'r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 6

O ran yr ymatebwyr hynny a oedd yn gallu meddwl am achlysur lle bydden nhw ond yn prynu bwyd gan fusnes bwyd â sgôr uwch na'u sgôr dderbyniol arferol, gofynnwyd iddyn nhw egluro beth fyddai'r achlysur hwnnw trwy ddewis o blith rhestr o opsiynau. Yr achlysuron mwyaf cyffredin oedd achlysuron arbennig (53%), pan fyddai'r ymatebydd yng nghwmni pobl benodol neu aelodau penodol o'i deulu (45%), pan fyddai'r ymatebydd mewn lle anghyfarwydd (er enghraifft gweithio i ffwrdd neu ar ei wyliau) (41%), neu pan fyddai gan yr ymatebydd neu rywun arall ofynion iechyd arbennig (er enghraifft salwch neu feichiogrwydd) (40%) (Ffigur 17) (footnote 6).

## Effaith y sticer sgôr hylendid bwyd ar ganfyddiadau ac ymddygiadau

Pe na bai sticer sy'n dangos sgôr hylendid bwyd y busnes yn cael ei arddangos wrth y fynedfa, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau, os o gwbl, y byddai hynny'n effeithio ar eu penderfyniad i fwyta yno. O blith y rheiny a oedd wedi clywed am y CSHB, byddai 58% yn llai tebygol (hynny yw 'yn llawer llai tebygol' neu 'ychydig yn llai tebygol') o fwyta bwyd mewn busnes bwyd nad oedd yn arddangos sticer sgôr hylendid bwyd wrth y fynedfa. Fodd bynnag, dywedodd 29% o'r ymatebwyr na fyddai'n eu gwneud yn llai tebygol o fwyta yno. Dywedodd 13% o'r ymatebwyr nad oedden nhw'n gwybod beth fyddai'r effaith ar eu penderfyniad i fwyta yno pe bai busnes yn peidio ag arddangos ei sgôr.

Dywedodd cyfran uwch o'r ymatebwyr sy'n byw yng Nghymru (68%) y bydden nhw'n llai tebygol o fwyta mewn busnes bwyd nad oedd yn arddangos sticer sgôr hylendid bwyd wrth y fynedfa o'u cymharu ag ymatebwyr yn Lloegr (57%). Byddai dros 6 o bob 10 (64%) o'r ymatebwyr yng Ngogledd Iwerddon yn llai tebygol o fwyta mewn busnes bwyd nad oedd yn arddangos sticer sgôr hylendid bwyd wrth y fynedfa** (footnote 7).


Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd wedi clywed am y CSHB a oedden nhw wedi penderfynu peidio â defnyddio busnes bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf oherwydd nad oedd yn arddangos ei sticer sgôr hylendid bwyd. Dywedodd 18% eu bod wedi penderfynu peidio â defnyddio busnes bwyd oherwydd nad oedd yn arddangos ei sticer sgôr hylendid bwyd, a dywedodd 63% nad oedden nhw wedi gwneud hyn. Fodd bynnag, dywedodd 19% o'r ymatebwyr nad oedden nhw'n gwybod, neu nad oedden nhw'n gallu cofio, a oedden nhw wedi penderfynu peidio â defnyddio busnes bwyd oherwydd nad oedd yn arddangos ei sticer sgôr hylendid bwyd (footnote 8).

## Pryderon am fusnesau bwyd nad ydynt yn arddangos sgôr CSHB

## Ffigur 18. Pryderon yr ymatebwyr pe na bai busnes bwyd yn arddangos ei sticer sgôr hylendid bwyd ar ei safle.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ?Pryder | Canran yr ymatebwyr (%) |
|---|---|
| Ni fyddwn yn poeni | 4 |
| Ni fyddwn yn sylwi bod y sticer ar goll | 27 |
| Nad yw'r busnes yn bodloni'r gofynion cyfreithiol | 39 |
| A yw'r busnes bwyd wedi cael ei arolygu gan yr awdurdodau perthnasol | 42 |
| Pa mor ddiogel yw bwyta yn y busnes | 44 |
| Risg uwch o gael gwenwyn bwyd/salwch/haint | 44 |
| Bod gan y busnes bwyd sgôr wael/isel a'i fod yn ceisio'i chuddio | 48 |
| Bod gan y busnes safonau hylendid gwael | 49 |

Lawrlwytho'r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 6

Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth fyddai'n peri pryder iddyn nhw pe baen nhw'n ymweld â busnes bwyd nad oedd yn arddangos ei sticer sgôr hylendid bwyd ar y safle. Y pryderon mwyaf cyffredin oedd bod gan y busnes bwyd safonau hylendid gwael (49%) a bod gan y busnes bwyd sgôr hylendid bwyd wael neu isel a'i fod yn ceisio'i chuddio (48%).

Roedd ymatebwyr yng Nghymru yn fwy tebygol o boeni bod gan y busnes bwyd safonau hylendid gwael (60%), bod gan y busnes sgôr hylendid bwyd wael/isel a'i fod yn ceisio'i chuddio (58%), ac nad yw'r busnes bwyd yn bodloni'r gofynion cyfreithiol (49%) nag ymatebwyr yn Lloegr (48% yn poeni am safonau hylendid gwael, 47% yn poeni am sgôr hylendid bwyd wael/isel, a 38% yn poeni nad yw'r busnes yn bodloni'r gofynion cyfreithiol). Roedd ymatebwyr yng Nghymru hefyd yn fwy tebygol o boeni a oedd y busnes bwyd wedi cael ei arolygu gan yr awdurdod perthnasol (54%) nag ymatebwyr yn Lloegr (41%) a Gogledd Iwerddon (42%).

Ni fyddai dros chwarter o'r ymatebwyr (27%) yn sylwi pe na bai sticer yn cael ei arddangos, ac ni fyddai 4% yn poeni am ddim byd pe na bai'r sticer yn cael ei arddangos (Ffigur 18) (footnote 9). Roedd ymatebwyr yn Lloegr (28%) yn fwy tebygol o ddweud na fydden nhw'n sylwi pe bai'r sticer ar goll nag ymatebwyr yng Nghymru (16%). Yng Ngogledd Iwerddon dywedodd (23%)** na fydden nhw'n sylwi pe bai'r sticer ar goll nag ymatebwyr yng Nghymru.

1. Cwestiwn: Ar gyfer pob un o'r sgoriau hylendid canlynol, nodwch a fyddech chi'n dal i fwyta mewn bwyty neu o siop tecawê pe baech yn gweld y sgôr honno, neu a fyddech yn penderfynu peidio â bwyta yn y bwyty neu o'r siop tecawê honno. Ymatebion: Byddwn i'n dal i fwyta yn y bwyty / o'r siop tecawê; Fyddwn i ddim yn bwyta yn y bwyty / o'r siop tecawê; Ddim yn gwybod. Sylfaen = gweler tabl FHRS11_rebased i weld y rhifau sylfaen, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur 'Bwyta Allan' trwy'r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

2. Cwestiwn: Ar raddfa sgoriau o 0 i 5, beth yw'r sgôr isaf a fyddai'n dderbyniol i chi fel arfer pe baech chi'n ystyried prynu bwyd o rywle? Ymatebion: 0 – angen gwella ar frys; 1 – angen gwella yn sylweddol; 2 – angen gwella; 3 – boddhaol ar y cyfan; 4 – da; 5 – da iawn; Ddim yn gwybod; Dydw i ddim fel arfer yn sylwi ar y sgôr wrth fynd i mewn i fusnes bwyd. Sylfaen = 4335, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur 'Bwyta Allan' trwy'r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, ac eithrio'r rhieny a oedd 'heb nodi'.

3. Cwestiwn: A allwch chi feddwl am sefyllfa lle y byddech chi o bosib yn penderfynu prynu bwyd gan fusnes bwyd â sgôr is na … (sgôr)? Ymatebion: Gallaf; Na allaf; Ddim yn gwybod. Sylfaen = 3352, yr holl ymatebwyr ar-lein a ddywedodd eu bod yn ystyried sgôr o … (sgôr) yn dderbyniol wrth brynu bwyd o rywle, ac eithrio'r rhai nad oedden nhw wedi clywed am y CSHB, ac eithrio'r rhieny 'heb nodi'. Sylwer: Y sgôr a gyflwynwyd oedd y sgôr a roddwyd mewn ymateb i'r cwestiwn blaenorol, 'Ar raddfa sgoriau o 0 i 5, beth yw'r sgôr isaf a fyddai'n dderbyniol i chi fel arfer pe baech chi'n ystyried prynu bwyd o rywle?'

4. Cwestiwn: Beth fyddai'r achlysur hwnnw? Ymatebion: Pe na bai llawer o ddewis o leoedd i fynd iddyn nhw; Pe bawn i wedi bwyta bwyd yno o'r blaen; Pe bawn i allan yn hwyr y nos; Pe bawn i'n gwybod bod y bwyd o ansawdd uchel; Pe bai angen i mi brynu rhywbeth yn gyflym; Pe bai rhywun wedi argymell y lle i mi; Pe na bai gennyf lawer o arian i'w wario/pe bawn i am brynu bwyd o rywle rhad; Pe bai rhywun arall yn fy ngr?p wedi dewis y busnes bwyd hwn; Pe bawn i'n mwynhau blas y bwyd o'r lle; Pe na bawn i'n gyfarwydd â'r lleoliad (gweithio i ffwrdd, ar wyliau, ac ati); Pe bai'n rhan o gadwyn rydw i'n gyfarwydd â hi; Oherwydd y byddwn i'n tybio ei fod yn ddiogel os yw'n dal i fod ar agor/yn gweithredu; Pe bai'r busnes bwyd yn gweini math penodol o fwyd (er enghraifft math o cuisine neu ddewisiadau llysieuol/figan); Pe bawn i'n mynd â'r bwyd i ffwrdd gyda fi yn lle bwyta ar y safle; Arall; Ddim yn gwybod. Sylfaen = 679, yr holl ymatebwyr ar-lein a oedd yn gallu meddwl am sefyllfa lle y bydden nhw o bosib yn prynu bwyd o fusnes bwyd â sgôr is na'u sgôr dderbyniol arferol, ac eithrio'r rheiny nad oedden nhw wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, a'r rheiny a oedd 'heb nodi'.

5. Cwestiwn: Allwch chi feddwl am achlysur lle byddech chi ond yn prynu bwyd gan fusnes bwyd â sgôr uwch na … (sgôr)? Ymatebion: Gallaf; Na allaf; Ddim yn gwybod. Sylfaen = 3119, yr holl ymatebwyr ar-lein a ddywedodd y bydden nhw'n bwyta bwyd o fusnes â sgôr o … (sgôr), ac eithrio'r rheiny nad oedden nhw wedi clywed am y CSHB, ac eithrio'r rheiny a oedd 'heb nodi'.  Sylwer: Y sgôr a gyflwynwyd oedd y sgôr a roddwyd mewn ymateb i'r

cwestiwn blaenorol, ‘Ar raddfa sgoriau o 0 i 5, beth yw’r sgôr isaf a fyddai’n dderbyniol i chi fel arfer pe baech chi’n ystyried prynu bwyd o rywle?’

6. Cwestiwn: Beth fyddai’r achlysur hwnnw? Ymatebion: Pan fydd yn achlysur arbennig (pen-blwydd, pen-blwydd priodas, dathliad, ac ati); Pan fyddaf i yng nghwmni pobl benodol/aelodau penodol o’r teulu; Pan fyddaf i mewn lle anghyfarwydd (gweithio i ffwrdd, ar fy ngwyliau, ac ati); Pan fydd gennyf i neu rywun arall ofynion iechyd arbennig (salwch, beichiogrwydd, ac ati); Pan fyddaf i’n mynd yng nghwmni pobl h?n; Pan fyddaf i’n mynd yng nghwmni plant (ifanc); Pan fyddaf i am fynd i le drud; Pan fydd yn rhan o gadwyn; Arall. Sylfaen = 1906, yr holl ymatebwyr ar-lein a ddywedodd y bydden nhw ond yn bwyta bwyd yn rhywle â sgôr uwch, ac eithrio’r rheiny nad oedden nhw wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, a’r rheiny a oedd ‘heb nodi’.

7. Cwestiwn: Pe na bai sticer sy’n dangos sgôr hylendid bwyd y busnes yn cael ei arddangos wrth y fynedfa, i ba raddau, os o gwbl, y byddai hynny’n effeithio ar eich penderfyniad i fwyta yno? Ymatebion: Byddwn i’n llawer llai tebygol o fwyta yno; Byddwn i ychydig yn llai tebygol o fwyta yno; Fyddwn i ddim yn llai tebygol o fwyta yno; Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4417, yr holl ymatebwyr ar-lein a’r rheiny a atebodd yr holiadur ‘Bwyta Allan’ trwy’r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, ac eithrio’r rheiny a oedd ‘heb nodi’.

8. Cwestiwn: Yn ystod y 12 mis diwethaf, a wnaethoch chi erioed benderfynu peidio â defnyddio busnes bwyd gan nad oedd yn arddangos sticer y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd? Ymatebion: Do; Naddo; Ddim yn gwybod/Methu cofio. Sylfaen = 4418, yr holl ymatebwyr ar-lein a’r rheiny a atebodd yr holiadur ‘Bwyta Allan’ trwy’r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, ac eithrio’r rheiny a oedd ‘heb nodi’.

9. Cwestiwn: Pe baech chi’n ymweld â busnes bwyd nad oedd yn arddangos sticer y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ar y safle, a fyddech chi’n poeni am unrhyw rai o’r pethau canlynol? Ymatebion: Bod gan y busnes bwyd sgôr hylendid bwyd isel neu wael a’i fod yn ceisio’i chuddio; Bod safonau hylendid y busnes bwyd yn wael; A yw’r busnes bwyd wedi’i arolygu gan yr awdurdodau perthnasol ai peidio; Bod mwy o berygl o gael gwenwyn bwyd/salwch/haint drwy fwyta yno; Pa mor ddiogel yw hi i fwyta yn y busnes bwyd; Nad yw’r busnes bwyd yn bodloni’r gofynion cyfreithiol; Fyddwn i ddim yn sylwi pe na bai’r sticer yn cael ei arddangos; Fyddwn i ddim yn poeni am ddim byd; Arall; Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4420, yr holl ymatebwyr ar-lein a’r rheiny a atebodd yr holiadur ‘Bwyta Allan’ trwy’r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, ac eithrio’r rheiny a oedd ‘heb nodi’.